



Cymdeithas Rien  
Ysgol Gymraeg Castell-nedd  
*Parents' Association*

**Cofnodion Cyfarfod Nos Fercher, 3ydd o Chwefror, 2010.**  
*Minutes of Meeting Wednesday, 3rd February, 2010.*

**Presennol/Present:**

Claire Lloyd West, Yasmin Pike, Sara Asher, Mrs JV Jones, Lisa Llewelyn, Cath Hoile Davies, Delyth Williams, Amanda Walters, Sian Moore, Rhian Swithenbank, Cathy Thomas.

**Ymddiheuriadau/Apologies:**

Neil Mills, Mr Jones, Angharad Lukes, Nicola Thomas, Louise Woollard.

**Diolchodd Sian i bawb am ddod.**

*Sian thanked everyone for attending.*

**Adborth/Feedback**

**Ffair Nadolig/Christmas Fair**

**Dywedwyd fod angen naill ai mwy o helpwyr neu i dorri lawr ar y stondinau achos ni chafodd neb gyfle i fynd o gwmpas y ffair os oeddynt yn helpu ar stondin. Soniwyd am gyfraniad y staff, oni bai amdanynt ni fyddai'r ffair mor llwydiannus, diolch yn fawr iawn iddynt. Hefyd sut mor neis oedd e i gael y neuadd i gynnal y ffair ac i gael bron popeth yn yr un lle. Soniwyd bod eisiau llawer mwy o arwyddion, llwyau bach, clytiau te ar gyfer ffair blwyddyn nesaf.**

*It was stated that either more helpers would be required next year or alternatively less stalls as those who were helping on stalls had no opportunity to go around the fair. The staff's contribution was fantastic this year, many thanks indeed to all concerned. It was also stated how nice it was to be able to use the school hall this year. It was noted that next year more tea spoons are needed as well as more tea towels and signs.*

**Y disgo / disco**

**Nid oes lle am i-pod yn system sain yr ysgol, lwcus roedd rhywbeth arall gan Sian. Yn ôl yr adborth, teimlwyd y byddai'n well i chwarae gêmau yn ystod y disgo.**

*It was noted that there is no i-pod outlet for the schools sound system and it was lucky that Sian had a plan B so the disco was able to go ahead. The feedback also noted that it would be better to break the disco up with games next time.*

**Ymholiadau personol yr heddlu/ CRB Checks**

**Codwyd y pwynt a oes angen ymholiad personol yr heddlu i weithio/gwirfoddoli mewn disgo ysgol ee gweini cŵn poeth i'r plant. Dywedodd Mrs Jones roedd noson gymdeithasol gan Ferched y Wawr yr wythnos diwethaf ac fe dalon nhw i staff y gegin i ddod mewn. Cytunodd pawb byddai'n werth ei ystyried.**

*The question was raised whether CRB check were required for those helping out at PTA events eg serving hotdogs to the children. Mrs Jones mentioned that there was a Merched y Wawr event held in*

*the school hall recently and they paid the kitchen staff to cater the event. All present agreed that it would be worth considering in the future.*

### Arian/ Money

#### Cardiau Nadolig/Christmas Cards

**Nid oes ffigurau ar gael eto achos nid yw'r arian i gyd wedi cael ei gasglu.**

*Figures were not available as not all monies have been collected.*

#### **Panto**

**Gwerthwyd 58 o docynnau. Roedd yn llwyddiant. Soniwyd trueni nad oedd mwy o deuluoedd wedi dod, yn enwedig ar ol i adborth i'r holiaduron ddweud bod eisiau mwy o ddigwyddiadau teuluol. Codwyd £49.51. Diolch yn fawr iawn i Lisa am drefnu'r trip. Awgrymodd Cath falle byddai'n syniad i gael stondin yn y ffair yn hysbysebu'r panto y tro nesaf. Trafodwyd gael y trip ynghynt blwyddyn nesa. Cytunwyd nid oedd yn syniad da.**

*58 tickets were sold and the trip was deemed a success. It was stated that it was a pity that the event was not better attended, especially as the recent questionnaire results stated that more family events would be appreciated. £49.51 was the total raised. Many thanks to Lisa for organizing the trip. Cath suggested that it would be an idea to have a stall in the Christmas fair next year in order to maximize publicity. It was also discussed bringing the trip forward to an earlier date. All present agreed that this was not plausible.*

#### Cinio Nadoilg/Christmas Dinner

**Gofynnwyd am gyfraniad tuag at lliain bwrdd Nadoligaidd a chraceri. Rhoddwyd £65 a diolchwyd i'r Gymdeithas.**

*A request was made by the kitchen for a contribution towards Christmas table clothes and crackers for the children's Christmas dinner. £65 was given.*

### Arian/Money

**Nid oes ffigurau cyfredol ar gael. Yn y cyfarfod nesaf os cawn ni ffigurau pendant gallen ni ddweud wrth Mr Jones faint sydd gyda ni ac yna gall e benderfynu ar restr siopa.**

*Current figures were not available. If figures are available in the next meeting, we will be in a position to give the figures to Mr Jones so that he may decide on a shopping list.*

#### Clwb Cant/ 100 Club

**Cytunwyd i adael clwb cant eleni gan ein bod ni wedi colli ein cyfle erbyn hyn. Cytunwyd i ail-ddechrau ym mis Medi gyda gwell hysbysebu.**

*It was agreed to leave 100 Club this year as we'd missed the boat. It was agreed to restart the club in September with better advertising.*

#### Cynilo gyda Tesco/ Saving with Tesco

**Cytunwyd hefyd bod eisiau gwithiad arall, ac efallai i atgoffa pobl bod y cynllun ar gael ac mae modd i gynilo ar gyfer Nadolig yn ogystal â chael eich arian bob mis.**

*It was agreed that another push was required and perhaps a reminder to people that the scheme is available as either a Christmas saving scheme or a gift voucher can be collected monthly.*

#### Chwe chenedl/ Six nations

**Nid oes rhifau terfynol o faint gwerthwyd hyd yn hyn. Dywedodd Sian mae'n ormod o waith i un person.. Cytunwyd i ffurfio pwyllgor i farcio'r papurau. Cytunir dyddiad am y cyfarfod nesaf.**

*Final figures of numbers sold were not yet available. Sian stated that it was too much work for one person, so it was agreed to form a committee to mark the papers. A date for marking will be discussed in the next meeting.*

## Codi arian 2010/Fund Raising 2010

### Casgliad Hen Ddillad/Old clothes collection

**Gofynnwyd pryd gallen ni wneud. Bydd Sian yn siarad â Mr Jones i gael dyddiad pendant ac yna gallen ni ddechrau'r hysbysebu.**

*The question was raised when can the event go ahead. Sian will speak to Mr Jones to establish a date so that advertising can begin.*

### Gemwaith/Jewellery

**Bydd Sian yn ffonio i ofyn am yr amlenni yr wythnos hon. Awgrymodd Rhian dylen ni atgoffa'r rhieni faint codon ni llwydd**

*Sian will contact the firm to request envelopes this week. Rhian suggested that we remind parents how much was raised last year before hand.*

### Cwis Mr Jones's Quiz

**Gallen ni gael y clwb criced . Trafodwyd dyddiad, efallai'n gynnar ym mis Mai. Penderfynnwyd i benodi dyddiad pendant gyda Mr Jones**

*We are able to use the Cricket Club for this event. A possible date of early May was discussed. It was decided to pinpoint a date with Mr Jones.*

### Neidio Noddedig/ Sponsored Bounce

**Gan ystyried bod yr ysgol newydd wneud rhywbeth ar gyfer y NSPCC, cytunwyd mae'n ormod i ofyn am ragor o arian eto yn enwedig gan ystyried yr economi.**

*Considering the school has recently supported a fund raising event for the NSPCC in school, it was agreed that it would be too much to ask for more money from parent, especially given the current economic climate.*

### Noson Gyrru/ Curry Night

**Soniwyd am gynnig, mae'r bwyty cyrri Panshe yn Sgiwen sy'n cynnig pryd o fwyd tri chwrs am £10 ac mae'n nhw'n rhoi £5 nôl. Soniwyd bod y bwyty'n fach . Felly mae Lisa'n mynd i ffonio Café India i weld os fydden nhw'n gwenud rhywbeth tebyg i ni. Mae Lisa'n mynd i ofyn os gallen nhw wneud pris arbennig ar gyfer plant hefyd.**

*It was mentioned that the Panshe reataurant in Skewen will do a deal, offering a three course meal for £10 and they will give £5 back to us. It was mentioned that the Panshe is too small. Therefore Lisa is to contact Café India to see if they will do a similar deal. Lisa is also to enquire whether they will offer a special price for children.*

### Noson Rasio/Race Night

**Soniwyd byddai'n hyfryd i gael noson rasio eto neu Helfa Drysor. Mae llawer o bethau gan Della. Sara i ofyn iddi hi erbyn y cyfarfod nesaf. Gan bod cyllid cyfatebol ar gael gan Barclays mae'n rhaid ceisio cael tair noson tair gwaith y flwyddyn er mwyn ceisio cael £750 tair gwaith y flwyddyn. Cytunodd pawb roedd y Clwb Rygbi yn berffaith y tro diwethaf felly dylen ni ofyn iddynt eto. Trafodwyd y dyddiad o Orffennaf 9fed . Cytunodd Amanda i ffonio'r Clwb Rygbi.**

*It was mentioned it would be lovely to have another race night or a treasure hunt. Della has lots of treasure hunts. Sara is to ask Della for further information in time for the next meeting. As match funding is available from Barclays, it was stated that we really need to try and have three events in order to maximize our chances of qualifying for the funds. All present agreed that the Rugby Club was an ideal venue. A possible date was earmarked, July 9<sup>th</sup>. Amanda agreed to phone the Rugby Club.*

### Blwyddyn chwech – Parti ymadael/ Year 6 leaving party

**Mae'r rhieni'n penderfynu ar beth maent yn gwneud. Mae'r gymdeithas yn cyfrannu tuag ato. The parents will decide on the event, the PTA will contribute as usual.**

Syniadau eraill/Other ideas

**Mae pawb yn mynd i feddwl am syniadau codi arian.**

*Everyone to think of fund raising ideas.*

**Cododd Lisa y pwynt dylen ni wneud mwy dros y plant, er enghraifft Gorymdaith Hetiau Pasg. Gwansanaeth arbennig ac efallai helpa wyau pasg. Mrs Jones i drafod gyda Mr Jones ac adborth yn y cyfarfod nesaf.**

*Lisa raised the point that more should be done for the children eg an Easter Bonnet Parade, with a special assembly or perhaps an Easter egg hunt. Mrs Jones will discuss the matter with Mr Jones and report back in the next meeting.*

Y cyfansoddiad/The Constitution

**I'w drafod yn y cyfarfod nesaf. .**

*To be discussed in the next meeting*

Gwefan yr ysgol/School website

**Codwyd y pwynt dylai'r wefan gynnwys materion mwy cyfoes fel cofnodion/agenda/cylchlythyr.**

*The point was raised that the school website should contain more current information such as meeting minutes/agenda/newsletters.*

Cylchlythyr/ Newsletter

**Cynnwys i'w drafod yn ystod y cyfarfod nesaf .**

*Content to be discussed in the next meeting.*

Unrhyw fusnes arall/Any other Business

**Ble mae'r bibs?/ Where are the bibs?**

**Prynwyd bibiau ar gyfer mabolgampau. Ble mae nhw? Mae Mrs Jones yn mynd i wneud ymholiadau.**

*Bibs were purchased for school sports, where are they? Mrs Jones is to make enquiries.*

Gwobrau/Prizes

**Sian yn mynd i geisio am wobrau y CCCRh.**

**Sian is to apply for grants from NCPTA.**

Pice ar y maen/Welsh cakes

**Bob blwyddyn mae'r Gymdeithas yn prynu pice ar y maen ar gyfer y plant. Cytunwyd i wneud unwaith eto eleni.**

*Every year the PTA purchases Welsh Cakes for the children for St David's Day. It was agreed that this should be the case again this year.*

**Cyfarfod Nesaf– 3fydd o Fawrth 2010 - 7 o'r gloch  
CROESO I BAWB**

*Next Meeting – 3rd March, 2010 - 7.00pm  
ALL WELCOME*